

## Cyngor Cymuned Ganllwyd

Medi 10fed 2025

### **Presennol**

Cyng D.Morris, S.Roberts,G.Jones,C.Dixon,S.Jones a C.Edwards.

Heledd Parri a Chloe Jones aelodau Grwp Cynefin.

### **Ymddiheuriadau**

Cyng D.Griffiths.

### **Grwp Cynefin.**

Croesawodd Y Cynghorydd Dixon Heledd Parri a Chloe Jones, aelodau o'r grŵp Cynefin, i'r cyfarfod.

Dywedodd Heledd fod grŵp Cynefin, mewn cydweithrediad â sawl partneriaeth fel Cyngor Gwynedd, Adra a.y.b, yn gorff sy'n casglu data a gwybodaeth i sefydlu anghenion tai mewn cymuned benodol. Ar ôl clywed yr holl wybodaeth fanylach gan Heledd, roedd cynghorwyr y gymuned o'r farn y dylid llunio adroddiad ar anghenion tai gan grŵp Cynefin mewn perthynas ag anghenion tai yn ardal Ganllwyd.

### **Cofnodion Gorffennaf 2025**

Cynnigodd Cyng G.Jones fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris.

### **Datagan diddordeb mewn un rhyw fater a drafodir.**

Dim

### **Materion yn codi.**

**Go safe**-dal i ddisgwyl ymateb gan y corff yma ynglyn problem gyrru trwy bentref Ganllwyd.

**Ffordd Cwmhesian**- Cyngor Gwynedd heb dorri gwrychoedd a.y.b yn yr ardal gan nad oes problem gyda choed-tir/glaswellt gormodol yn yr ardal hon.

**"Potholes" Derwen Deg, Ganllwyd.** Mae'r gwaith i drwsio gwyneb y ffordd ar rhestr Cyngor Gwynedd.

**Bont Ty'n y Groes-** Mae gwaith tacluso'r ardal wedi ei gwblhau gan Cyngor Gwynedd.

**Cerbyd gadawyd ym Maes parcio Ymddiriedolaeth Genedlaethol** - Mae'r heddlu, Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac eraill wedi bod mewn cysylltiad â perchennog y cerbyd hwn ac eto nid oes sail gyfreithiol i symud y cerbyd o'r maes parcio. Fe gafodd y cleric ei hysbysu gan Trystan Edwards o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol y bydd yn parhau â'i ymdrechion i gael y car wedi'i symud.

### **Gweledigaeth y Cyngor Cymuned.**

Yn ymwneud â'r cwestiynau a godwyd gan Gynghorydd Dixon ynglŷn â nodau a dyheadau'r cyngor cymuned yn y dyfodol a'r angen brys i'r naill gynghorwyr a'r cyngor gyflawni tasgau gorfodol, roedd ymateb prin neu ddim gan y cynghorwyr.

Hysbysodd y cleric i'r cyngor am sawl mater a godwyd yn ystod y trydyddiad ariannol parhaol a sut y gallent effeithio ar y cyngor a'i ddyfodol.

Ar ôl sgwrs fer, ni gyflwynwyd unrhyw syniadau na chynigion i'r cyfarfod.

### **Cynghorwr Sir.**

Caru Coed y Brenin- Mae CNC yn gwahodd pobl neu sefydliadau i gymryd drosodd rhedeg y caffi/siopau yn Coed y Brenin tan o leiaf Ebrill 2026.

Mae cyfarfod wedi'i drefnu gan Caru Coed y Brenin gyda CNC ar 17eg Medi i drafod y mater hwn.

Ysgol y Ganllwyd- Perchennog Ysgol Ganllwyd ddim wedi ymateb i gais y cyngor i drafod prynu yr adeilad.

Ffermio lleol- Y Parc wedi cyflogi tri person i weithio ar y Cynllun Ffermio Bro newydd.

Y Parc yn trafod dyfodol Plas Nannau gyda nifer o asiantaethau preifat a statudol.

**Materion ariannol.****Cyson Banc Gorffennaf 2025**

Yn y Banc ar ddechrau'r mis: £3893.47

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

Cyflog/Paye £100.00

Treuliau banc £6.60

Printer Newydd £119.98

Yn y Banc diwedd mis £3666.89

**Cyson Banc Awst 2025**

Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: £3666.89

Derbyniwyd:

Praesept £1625.00

Taliadau:

Cyflog/Paye £100.00

Treuliau banc £5.40

Ysiwriant Zurich £474.18

Yn y Banc diwedd mis £4712.31

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Taliadau:

Fe gafodd y clercc awdurdo id alu anfonebau isod;

Gwasanaeth tir a Coed £1080

Alun Evans £45

Awdit Cyngor Gwynedd £462

Llogi neuad pentref 2024 £165

Lwfans aelodau:

Yn dilyn trafodaeth cytunodd y cynghorwr dderbyn dim araian am ei gwasanaeth am y flwyddyn ariannol nesaf.

Arwyddwyd y dogfennau priodol i gadarnhau hyn.

Grant Gwynedd Ni.

Cadarhawyd fod y cyngor wedi derbyn grant o £4,600 tuag at dodrefn stryd newydd yn y Ganllwyd.

### **Materion cymunedol.**

Gwaith ar y ffordd byth wedi cychwyn.

Clerk i gysylltu a Cyngor Gwynedd.